

## ADFENT 2017

### Gobaith – Pobl Dduw yn disgwyl am gyflawni ei air

Eseia 64:1-9 ac Eseia 52:7-10

Mewn hysbyseb ar dudalennau papur newydd rhyw fore Sadwrn y gwelais i'r cyfeiriad cyntaf i'r Adfent eleni. Hysbyseb ydoedd am *'The wine lover's advent calendar – 24 mini bottles of wine, 1 for each day up to Christmas'!*

Efallai bod hysbyseb o'r fath yn datgelu mewn gwirionedd gymaint yr ydym ni fel eglwysi wedi methu â chyflueu gwir ystyr yr Adfent fel cyfnod o weddi, o hunan ddisgyblaeth ac o ympryd wrth i ni ddisgwyl ar i Dduw i ddod i'n gwaredu. Efallai na fyddai Eseia wedi ei synnu'n ormodol am hyn gan iddo alaru dros ei bobl- *'nid oes neb yn galw ar dy enw, nac yn trafferthu i afael ynot.'* (64:7)

Ond nid neges o gondemniad yn unig sydd i'w canfod yng ngeiriau Eseia. Ym mhenodau 63 a 64 mynegodd weddiâu cymuned o bobl. Yng ngeiriau Eseia ei hun, *'aethom i gyd fel peth aflan'*. (64:6). Ond hyd yn oed yn y cyflwr hwn mae gobaith ac y mae'r gobaith hwnnw'n deillio o'n perthynas gyda Duw ei hun. *'Ond tydi Arglwydd yw ein Tad'* (64:8)

(Er bod y gosodiad mor gyfarwydd i ni nid yw'n gymal sy'n cael ei ddefnyddio'n aml yn yr Hen Destament).

Oherwydd y berthynas hon mae Eseia'n gweld ffordd ymlaen. Y mae'n rhaid i ni roi ein hunain yn llaw Duw, oherwydd ef yn unig all newid y byd a'n bywydau ein hunain fel ei gilydd. Defnyddia Eseia un o'r delweddau harddaf yn y Gair, delwedd

sy'n cael ei godi drachefn yn Rhufeiniad 9. *'Ni yw'r clai a thi yw'r crochenydd; gwaith dy ddwylo ydym i gyd'* (64:8).

Byddai defnyddio trydedd linell yr emyn 'Ysbryd y tragwyddol Dduw' (sy'n well yn Gymraeg nag yn Saesneg), yn ffordd berffaith i fynegi'r ffydd hwn. Mae'n weddi sy'n ein harwain i ymostwng i Dduw – *'plyg ni, trin ni, golch ni, cod ni.'*



Byddai agor ffenestri'n calonnau a'n meddyliau i Dduw bob nos dros y pedair wythnos nesaf yn fwy llesol i ni nag agor ffenestri calendr Adfent (boed yn siocled neu yn win)!

Beth am roi cynnig arni?

Yna gwelwn hefyd bod geiriau cyffrous a dyrchafol yn Eseia 52 yn fynegiant o argyhoeddiad sicr Eseia y **bydd Duw yn**

bendant yn gweithredu, yn anfon negesydd o Seion, yn dod i waredu ei bobl. Mae argyhoeddiad Eseia mor sicr fel bod mawl yn tarddu **cyn** i hyn oll ddigwydd mewn hanes.

Pan oeddwn yn blentyn cefais fy nysgu wrth y bwrdd bwyd i ofyn bendith gyda'r geiriau Saesneg, 'for what we are about to receive may the Lord make us truly thankful'.

Gall unrhyw un ddiolch i Dduw a'i foli am yr hyn mae Duw eisoes wedi ei gyflawni yn ei fywyd, neu yn hanes yr eglwys. Ond mae tymor yr Adfent yn ein galw i chwilio o bell am yr hwn sy'n dod â neges gwaredigaeth Duw (52:7) a'i foliannu ar gân hyd yn oed cyn iddo gyrraedd. *'Bloeddiwch cydganwch, chwi adfeillion Jerwsalem'* (52:9) yw ei wahoddiad i ninnau hefyd.

Gwelsom wawrddydd y Deyrnas newydd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist (er ein bod yn flynyddol yn cael ein synnu o'r newydd at

harddwch yr hanes); ond yr ydym yn parhau i fyw ein bywydau yn y cyfnod rhwng-amseroedd y deyrnas a ddaeth, ond sydd eto i ddod yn ei chyflawnder a'i gogoniant.

Pobl sy'n medru byw yn ddisgwylgar yw pobl Dduw. Yr ydym yn byw gan ddisgwyl yn obeithiol, yn llawen-ddisgwylgar hyd yn oed pan mae'n cynlluniau, ein perthynas yn cael ei dorri, neu pan fydd ein cymunedau'n cael eu rhywgo gan amgylchiadau chwerw. Yng nghanol realiti'n profiadau yr ydym yn medru **dechrau canu** cân o fawl i Dduw. Yr ydym yn byw gan ddisgwyl y bydd gwaith grymus Duw yn cael ei gyflawni ac *'fe wêl holl gyrrau'r ddaear iachawdwriaeth ein Duw ni.'* (52:10)

**Parch Jenny Garrard,  
Llywydd y Gymdeithasfa  
yn y Dwyrain.**

### Daeth Duwdod mewn baban i'r byd

Yn y naratif Cristnogol y mae Duw yn disgyn ac yna yn ail-esgyn. Mae'n dod i lawr; i lawr o'r uchelderau absoliwt, i mewn i fyd amser a gofod, i lawr i fod yn fod dynol; ymhellach fyth, os yw embriolegwyr yn gywir, mae'n ailadrodd yn y groth fywyd oesol, cyn-ddynol [pob un]; i lawr i wreiddiau hanfod a dyfnderoedd moroedd Natur- yn rhan o'r hyn a grëwyd ganddo'i hun. Ond mae'n dod i lawr er mwyn esgyn drachefn a dod a'r holl fyd oedd wedi ei ddifetha i fyny gydag Ef.

C.S. Lewis